




# Cynllun Hygyrchedd

CREWYD  
CREWYD GAN  
CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL  
DYDDIAD ADOLYGU

09/2016  
R Jenkins  
20/9/2016  
Erbyn  
09/2019



# Cynllun Hygyrchedd Ysgol Bro Teifi

## Mynediad i'r Amgylchedd Corfforol

|           | Targedau   | Strategaethau   | Amserlen   | Cyfrifoldebau   | Meini prawf llwyddiant   |
|-----------|--|---|--|---|--|
| Tymor Byr | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr ysgol yn ymwybodol o anghenion hygyrchedd plant, staff a rhieni/gofalwyr anabl</li> <li>• Staff yr ysgol yn fwy ymwybodol o faterion hygyrchedd</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cynlluniau hygyrchedd i blant anabl unigol fel rhan o broses CAU, yn ôl yr angen</li> <li>• Cynnal arolwg cyfrinachol o staff a llywodraethwyr i ganfod beth yw anghenion hygyrchedd a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn cyfarfodydd</li> <li>• Cynnwys cwestiynau yn yr holiadur gwybodaeth am ddisgyblion cyfrinachol ynghylch anghenion hygyrchedd rhieni/gofalwyr a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ar bob achlysur</li> </ul> | <p>Medi 2016 (parhaus)</p> <p>Rhagfyr 2016</p> <p>Rhagfyr 2016</p> | <p>Pennaeth/<br/>Dirprwy<br/>Bennaeth</p> <p>Pennaeth/<br/>Dirprwy<br/>Bennaeth</p> <p>Pennaeth/<br/>Dirprwy<br/>Bennaeth</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynlluniau unigol yn eu lle i holl ddisgyblion anabl a'r holl staff yn ymwybodol o anghenion hygyrchedd y cyfan o'r disgyblion.</li> <li>• Hyder staff a llywodraethwyr yn eu hymrwymiad i gyflawni'r cyfan o'r anghenion hygyrchedd wedi cynyddu.</li> <li>• Y cyfan o'r rhieni yn gallu cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol</li> </ul> |

|               |  |   |                     |                                |  |
|---------------|--|---|---------------------|--------------------------------|--|
|               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod modd symud holl ddisgyblion anabl allan o'r adeilad yn ddiogel ar frys</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi Cynlluniau Gwagio mewn Argyfwng Personol ar waith i ddisgyblion dynodedig, yn ôl yr angen</li> <li>• Datblygu system i sicrhau bod holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau</li> </ul> | Medi 2017 (parhaus) | Pennaeth / Tim Arweinyddiaeth  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad o amgylch safle'r ysgol wedi gwella</li> <li>• Y cyfan o'r plant anabl a'r staff sy'n gweithio gyda nhw yn ddiogel ac yn hyderus yn achos tân</li> </ul> |
| Tymor Canolig | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod y cyfan o'r gweithredoedd sy'n cael eu hargymhell gan asiantaethau allanol yn cael eu rhoi ar waith yn llawn</li> <li>• Cael cyngor ar drefniadau gwagio dosbarthiadau ar frys gan roi sylw arbennig i ddefnyddwyr cadair olwyn.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb i argymhellion yr arolwg o adroddiadau argymhellion yr Awdurdod Lleol uchod</li> <li>• Cysylltu gyda Swyddog Cydraddoldeb yr Awdurdod Lleol</li> </ul>                                | Medi 2017           | Rheolwr Safle                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfan o'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith</li> <li>• Bydd disgyblion gydag anghenion yn gallu gadael dosbarthiadau yn ddiogel mewn argyfwng</li> </ul>        |
| Tymor Hir     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymateb yn rhagweithiol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn hygyrch i holl blant sy'n bwriadu dod i'r ysgol</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio gydag Adran Gynllunio'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod y cyfan o ofynion statudol yn cael eu cyflawni'n llawn</li> </ul>  | Medi 2018 – parhau  | Pennaeth / Corff Llywodraethol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfan o'r disgyblion sy'n bwriadu dod i'r ysgol yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r ysgol wrth ddechrau'r ysgol.</li> </ul>                                   |

## Mynediad i'r Cwricwlwm

|               | <b>Targedau</b>  | <b>Strategaethau</b>   | <b>Amserlen</b>   | <b>Cyfrifoldebau</b>   | <b>Meini prawf llwyddiant</b>   |
|---------------|--|--|---|--|---|
| Tymor Byr     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu hyder y staff wrth wahaniaethu'r cwricwlwm</li> <li>• Sicrhau bod Cynorthwywyr addysgu yn cael mynediad i hyfforddiant penodol ar faterion yn ymwneud ag anabledd</li> <li>• Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol, ac yn gallu defnyddio, meddalwedd ac adnoddau AAA</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal archwiliad o anghenion hyfforddiant staff ar fynediad i'r cwricwlwm</li> <li>• Pennu sesiynau HMS i anghenion hyfforddiant ddaeth i'r amlwg, e.e. dyslecsia, gwahaniaethu, dulliau cofnodi gwahano</li> <li>• Defnyddio'r archwiliad staff i adnabod anghenion hyfforddiant Cynorthwywyr addysgu ac i lywio'r broses Datblygiad Personol</li> <li>• Rhannu adnoddau AAA, TGCh ac eraill a sicrhau bod y rhestr ar gael i'r staff i gyd.</li> <li>• Cynnal sesiynau hyfforddi unigol ar ddefnyddio adnoddau AAA.</li> </ul> | <p>Tymor y Gwanwyn 2017</p> <p>Tymor y Gwanwyn 2017</p> <p>Tymor y Gwanwyn 2017</p> | <p>Dirprwy Bennaeth/ Pennaeth (Partneriaeth Awdurdod Lleol &amp; Ymgynghorydd Cynhwysiant)</p> <p>Pennaeth / Dirprwy Bennaeth</p> <p>Pennaeth / Dirprwy Bennaeth</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyder staff wedi codi gyda strategaethau ar gyfer gwahaniaethu a gwell cyfranogiad gan ddisgyblion.</li> <li>• Hyder Cymorhyddion Dysgu wedi cynyddu fel uchod.</li> <li>• Defnydd ehangach o adnoddau AAA mewn dosbarthiadau prif ffrwd.</li> </ul> |
| Tymor Canolig | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu'r Cwricwlwm Addysg Gorfforol i sicrhau bod Addysg Gorfforol yn agored i bawb</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Casglu gwybodaeth ar Addysg Gorfforol sy'n hygyrch i bawb a Chwaraeon Anabledd</li> <li>• Gwahodd campwyr chwaraeon anabl i mewn i gynnal sesiynau penodol</li> <li>• Adolygu'r Cwricwlwm Addysg Gorfforol i gynnwys chwaraeon anabledd</li> </ul>  | Medi 2017 (parhaus)   | Pennaeth Celfyddydau Mynegiannol   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfan o blant yr ysgol yn cael mynediad llawn i Addysg Gorfforol.</li> </ul>   |

|           |   |  |             |   |  |
|-----------|---|--|-------------|---|--|
|           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu'r cyfan o feysydd cwricwlaidd i gynnwys materion anabledd mewn perthynas â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd</li> </ul>                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys cyfeiriadau penodol at gydraddoldeb anabledd ymhob adolygiad cwricwlaidd</li> </ul>   | Ionawr 2018 | Pennaeth  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno materion anabledd yn raddol i holl feysydd y cwricwlwm trwy gyfrwng cylch Asesiad Effaith Cydraddoldeb cytunedig.</li> </ul> |
| Tymor Hir | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu ymagwedd gyson at wahaniaethu a chofnodi gwahanol yn yr ysgol</li> <li>• Sicrhau bod y cyfan o'r staff wedi dilyn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafod a chytuno ar bolisi gyda chanllawiau arfer da</li> <li>• Trefnu sesiynau HMS i rannu arfer da</li> <li>• Trefnu hyfforddiant HMS i holl staff ar Gydraddoldeb/ Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd</li> <li>• Sicrhau bod staff newydd yn cael mynediad at gyrsiau DPP tebyg</li> </ul> | Ionawr 2018 | (Partneriaeth Awdurdod Lleol ac Ymgynghorydd Cynhwysiant)/ Pennaeth | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Holl staff yn gweithio o bersbectif cydraddoldeb anabledd</li> </ul>  |

## Mynediad i Wybodaeth

|               | Targedau  | Strategaethau  | Amserlen  | Cyfrifoldebau  | Meini prawf llwyddiant   |
|---------------|---|--|---|--|--|
| Tymor Byr     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu gwybodaeth i rieni/gofalwyr i sicrhau ei bod yn hygyrch</li> <li>• Cytuno ar Bolisi Gwarchod Data</li> <li>• Trafodaeth gynhwysol ar fynediad i wybodaeth yn holl adolygiadau blynyddol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori â rhieni / gofalwyr ynghylch anghenion mynediad pan fydd eu plentyn yn dechrau'r ysgol</li> <li>• Adolygu holl lythyron a anfonir i gartrefi i sicrhau eu bod yn ddealladwy</li> <li>• Awdurdod Lleol i ddarparu canllawiau a pholisi model</li> <li>• Ymgynghori gyda rhieni / gofalwyr a phlant ynghylch mynediad i wybodaeth a hoff fformat y cyfan o'r adolygiadau</li> <li>• Datblygu strategaethau i gyflawni anghenion</li> </ul> | <p>Medi 2016 (parhaus)</p> <p>Medi 2016 (parhaus)</p> <p>Medi 2017</p> <p>Medi 2017</p> | <p>Pennaeth</p> <p>Pennaeth</p> <p>Pennaeth</p> <p>SENCO</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfan o'r rhieni yn derbyn gwybodaeth mewn fformat sy'n hygyrch, e.e. print bras</li> <li>• Y Corff Llywodraethol yn derbyn y polisi</li> <li>• Staff yn fwy ymwybodol o hoff ddulliau cyfathrebu disgyblion</li> </ul> |
| Tymor Canolig | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail-lunio llawlyfr yr ysgol i sicrhau ei fod yn hygyrch</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael cyngor ynghylch gwneud gwybodaeth yn hygyrch i bawb</li> <li>• Ail-lunio llawlyfr yr ysgol i sicrhau ei fod yn croesawu'n amlwg blant anabl a phlant ag AAA</li> </ul>   | Medi 2016   | Pennaeth   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhieni / gofalwyr yn teimlo'n hyderus yn y wybodaeth sydd ganddyn nhw am yr ysgol.</li> </ul>   |
| Tymor Hir     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu amserlenni gweledol ymhob dosbarth</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Staff yn cyfarfod i rannu arfer da</li> <li>• Cytuno ar ymagwedd ysgol gyfan</li> </ul>   | Medi 2017   | Dirprwy Bennaeth   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfan o'r plant yn hollol gyfarwydd gyda'u hamserlen unigol ac yn sicrhau ynghylch beth sy'n digwydd.</li> </ul>  |